# EFFAITH ADY A FFACTORAU LLINIARU – GWYBODAETH YCHWANEGOL

## CYNNIG Y DDARPARIAETH ADDYSG GATHOLIG

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu:
  - y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027;
  - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027;
  - y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

**Gwanwyn - Haf 2026**

# RHAN A. CYFLWYNIAD

Yn Sir y Fflint mae chwe ysgol wedi eu categoreiddio fel ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, yr Wyddgrug.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Gwenffrewi, Treffynnon.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir at yr ysgolion gan ddefnyddio eu henw unigryw byrrach. Er enghraifft, cyfeirir at Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney, fel Ysgol Sant Anthony.

Mae ysgolion Sant Anthony, Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwn a byddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol os bydd yn cael ei roi ar waith.

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r ddogfen Ymgynghoriad Statudol y dylai ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx

Bydd y cyfnod ymgynghori yn agor ddydd Mawrth 16 **Mehefin 2026** ac yn dod i ben am 11.59pm ddydd Mercher 29 **Gorffennaf 2026**.

Y ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.

Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gweithio a fydd yn cael eu diweddaru yn dilyn gwybodaeth ac adborth o'r broses ymgynghori.

# RHAN B. PWRPAS YR ASESIAD

Bydd anghenion addysgol ac ADY y mwyafrif helaeth o blant a phobl ifanc Sir y Fflint yn cael eu nodi, eu bodloni a'u monitro o fewn ysgolion prif ffrwd neu sefydliadau addysg bellach lleol. Bydd hyn drwy wahaniaethu a defnyddio strategaethau priodol ac ymyraethau wedi'u targedu o fewn cynnig cyffredinol o addysg o safon uchel. Yn ystod unrhyw gynigion ad-drefnu ysgolion yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2026, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i ddisgyblion ag ADY dan y meini prawf perthnasol.

Mae'r ddogfen hon yn egluro sut mae ystyriaeth ddyledus wedi'i rhoi i ddisgyblion ag ADY yn y lleoliadau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion.

# RHAN C. ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG

***Sicrhau y byddai unrhyw ddewis amgen yn darparu canlyniadau a chynnig darpariaeth sydd o leiaf gyfwerth â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i'r dysgwyr hynny (gan gynnwys dysgwyr ag ADY).***

Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET), mae'r Cyngor yn cefnogi egwyddorion sylfaenol y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yng Nghymru a amlinellir yng Nghod ADY Cymru a'r nod yw:

*'creu system addysg gwbl gynhwysol lle rhoddir cyfle i bob dysgwr lwyddo a chael addysg sy'n bodloni ei anghenion ac yn ei alluogi i fynd ati i ddysgu, manteisio ar ei addysg a'i mwynhau.'*

Adran 3.1, Pennod 3: Egwyddorion y Cod, Cod ADY Cymru 2021

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i bolisi o gynhwysiant i bob dysgwr ac mae'n cydnabod pwysigrwydd addysg gynhwysol lle mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ag ADY yn cael cefnogaeth i gymryd rhan lawn mewn addysg brif ffrwd fel yr amlinellir yn y Cod ADY. Credwn fod mynediad at addysg o safon uchel yn ofyniad er mwyn cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i fod yn ddinasyddion gweithredol.

Mae gofyn i bob ysgol gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol a roddir arnynt gan ALNET fel y byddai plant y nodir bod ganddynt ADY yn cael eu hamddiffyn yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae ffigurau presennol o gyfrifiad CYBLD 2025 yn dangos y nifer ganlynol o CDU:

**Saltney, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony**

| Math o CDU | Nifer y CDU | Nifer ar y Gofrestr | % â CDU |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 1 | | |
| Ysgol | 6 | | |
| **Cyfanswm** | **7** | **51** | **13.73** |

**Yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant**

| Math o CDU | Nifer y CDU | Nifer ar y Gofrestr | % â CDU |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 2 | | |
| Ysgol | 6 | | |
| **Cyfanswm** | **8** | **64** | **12.50** |

**Y Fflint, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair**

| Math o CDU | Nifer y CDU | Nifer ar y Gofrestr | % â CDU |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 7 | | |
| Ysgol | 22 | | |
| **Cyfanswm** | **29** | **281** | **10.32** |

## Y Fflint, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

| Math o CDU | Nifer y CDU | Nifer ar y Gofrestr | % â CDU |
|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 9 | | |
| Ysgol | 51 | | |
| **Cyfanswm** | **60** | **739** | **8.12** |

Dan system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Cymru, mae gan Gynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan yr ysgol a rhai a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol union yr un statws cyfreithiol. Y prif wahaniaeth yw pwy sy'n gyfrifol am greu, ariannu a chynnal y cynllun, ac mae hyn yn dibynnu'n llwyr ar gymhlethdod anghenion y plentyn a'i sefyllfa fyw.

Os oes gan blentyn ADY, mae hawl ganddynt i gynllun statudol o'r enw Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae gan bobl ifanc hyd at 25 oed ag ADY hawl i gael CDU os ydynt yn aros mewn addysg.

Cynllun statudol yw CDU a bydd yn nodi beth sydd ei angen ar y plentyn neu berson ifanc er mwyn gallu cefnogi eu dysgu. Bwriedir i'r CDU fod yn ddogfen hyblyg. Bydd yn amrywio o ran hyd a chymhlethdod yn dibynnu ar wahanol anghenion y plentyn neu berson ifanc.

Nid oes lleoliadau Adnoddau Arbenigol Awdurdod Lleol yn y pedair ysgol y mae'r cynigion yn effeithio'n uniongyrchol arnynt. CDU sy'n seiliedig yn bennaf yn yr ysgol yw'r rhain ac maen nhw'n adlewyrchu amrywiaeth o anghenion unigol.  Mae gan y Cyngor brofiad o gefnogi pontio ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY fel rhan o raglenni ad-drefnu ysgolion a byddai'n cydweithio i ddeall a chefnogi anghenion a gofynion dysgwyr y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt.

O ran safon addysg, mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn mandadu bod yn rhaid i benaethiaid ddarparu cwricwlwm sy'n cynnwys y disgwyliadau canlynol:

- bod yn addas i ddysgwyr o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol
- bod yn eang ac yn gytbwys

Bydd yr ad-drefnu arfaethedig yn darparu gwelliant sylweddol o ran yr adnoddau sydd ar gael i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati, a gwella'r cynnig addysgol trwy'r canlynol:

- Amgylchedd dysgu modern sydd wedi'i gynllunio'n benodol i ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru ac i gefnogi dysgwyr ag ADY i gynnal eu haddysg yn y lleoliad prif ffrwd
- Cyflenwad mwy o staff a fyddai'n caniatáu ar gyfer:
    - datblygu a gweithredu cynnig cwricwlwm eang a chytbwys
    - rolau arbenigol i'r cwricwlwm i gefnogi darparu'r cwricwlwm a llywio addysgu a dysgu i gefnogi mynediad i bob dysgwr
    - datblygu arbenigaeth ADY i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth
    - lefelau uwch o ymyrraeth a chefnogaeth ar gael i ddysgwyr
    - ehangu'r cynnig allgyrsiol a all ganiatáu i ddysgwyr ymgysylltu â'u meysydd cryfder penodol a'u datblygu

## RHAN D. HYGYRCHEDD/CLUDIANT

***Effaith y cynigion ar gludiant dysgwyr ag ADY.***

Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o gludo plant a phobl ifanc ag ADY i leoliadau arbenigol, yn y sir ac i leoliadau y tu allan i Sir y Fflint.  Mae gan lawer o'r dysgwyr hyn anghenion sylweddol a chymhleth a chymerir gofal i sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth addas i wneud y teithiau hyn bob dydd. Caiff rhai o'n dysgwyr mwyaf diamddiffyn yn ein hysgolion arbenigol a darpariaeth ymhellach y tu allan i'r sir eu cludo ar draws y Sir a thu hwnt bob dydd.

Mae'r Cyngor yn darparu cludiant Ysgol yn unol â gofynion canllawiau cenedlaethol.  Ni fydd trefniadau cludiant yn cael eu cyflwyno heb asesiad risg a monitro priodol. Caiff disgyblion ag ADY eu hasesu yn unigol gan dalu sylw llawn i'w gofynion o ran CDU ac unrhyw feini prawf ar gyfer cludiant ysgol am ddim. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddisgyblion sy'n cael addysg ôl-16.

Pan fo'n bosibl yn ymarferol, mae'r Cyngor yn cefnogi mesurau Teithio Llesol i hyrwyddo teithiau iachach a hapusach i'r ysgol.  Gall cymryd camau i hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy helpu i newid arferion teithio a meithrin cefnogaeth ar gyfer newid.

Dylai ysgolion ystyried ystod o opsiynau i wella'r dulliau teithio i'r ysgol a monitro eu heffaith. Anogir y disgyblion i gerdded, beicio, mynd ar sgwter, rhannu car a defnyddio cludiant cyhoeddus ar y daith i'r ysgol.

Gellir defnyddio mentrau i helpu i hyrwyddo Teithio Llesol, megis trefnu digwyddiadau a chlybiau, 'bysiau cerdded', annog y rhai sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus i fynd i lawr un stop yn gynt a cherdded gweddill y daith ac adnodd 'parcio a cherdded' i annog y rhai sy'n defnyddio cerbydau preifat i barcio ymhellach o'r ysgol a cherdded gweddill y daith.

Yn dilyn asesiad yn erbyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru, nid yw'r teithiau cerdded yn ardal y Fflint yn cael eu hystyried yn beryglus.  Mae'r cyfuniad o isadeiledd di-dor i gerddwyr, cyfleusterau croesi diogel ar ffyrdd prysurach ac amodau cerdded sy'n ffafriol yn gyffredinol yn sicrhau bod dysgwyr yn gallu teithio i'r ysgol yn weddol ddiogel.

Yn seiliedig ar broffiliau dysgwyr a lleoliad yr ysgol newydd arfaethedig, rhagwelir y bydd trefniadau teithio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dal yn ddichonadwy, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn parhau i fynd i ddarpariaeth o fewn pellter teithio rhesymol. Pan fo angen teithio'n bellach, disgwylir y byddai hynny'n gyfyngedig ac y gellir ei gefnogi drwy drefniadau cludiant priodol.

Mae'r Cyngor yn cynnal asesiadau cludiant manwl ar gyfer dygwyr gydag ADY a disgyblion iau, gan sicrhau bo amgylchiadau unigol, symudedd a lefelau annibyniaeth a rhestrau penodol i deithio yn cael eu hystyried yn llawn. Nodir trefniadau priodol a chymesur fesul achos yn unol â dyletswyddau statudol y Cyngor a phrosesau sefydledig.

Darperir cludiant ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â threfniadau gweithredol, cytundebol a diogelu cadarn y Cyngor, gan gynnwys goruchwyliaeth briodol, defnyddio staff wedi'u hyfforddi a hebryngwyr â gwiriadau GDG pan fo gofyn, a drwy weithredu gweithdrefnau diogelwch a brys sydd wedi'u sefydlu i gefnogi teithio diogel a hygyrch.

***Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gludiant i gael rhagor o fanylion.***

## RHAN E. CAPASITI A MYNEDIAD

***Gwerthuso sut mae cynigion yn newid argaeledd lleoedd arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd/uwchradd a sicrhau mynediad at staff arbenigol priodol.***

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw leoliadau Adnoddau Arbenigol Awdurdod Lleol yn y rhwydwaith o ysgolion Catholig, ac felly, ni fydd yr ad-drefnu arfaethedig yn arwain at ostyngiad o ran

darpariaeth arbenigol. Rhagwelir y bydd datblygu cyflenwad mwy o ran ysgol a staff yn hwyluso datblygiad rolau arbenigol yn yr ysgol gan ymateb i anghenion disgyblion.

Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth reolaidd ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY) ac anogir staff i rannu arbenigedd ar draws ysgolion, yn unol â blaenoriaethau ALNET.

Yn unol ag egwyddorion y Cyngor ar gyfer cynhwysiant, mae gan bob ysgol newydd ddarpariaeth fodern ar gyfer ADY fel rhan safonol o'r dyluniad. Mae hyn nid yn unig yn gwella'r amgylchedd ond mewn lleoliad mwy, mae'n darparu mwy o gwmpas ar gyfer gweithio fesul canolbwynt, a rhannu arbenigedd rhwng staff, a mynediad at leoedd arbenigol lle bo'n briodol, o bosibl. Mae'n caniatáu ystyried mynediad at staff arbenigol priodol o safbwynt cwricwlwm ac ADY hefyd.

## RHAN F. CYSONDEB Y GEFNOGAETH

***Sicrhau bod newidiadau'n cyd-fynd â Deddf ALNET i ddarparu system gefnogaeth unedig, deg a hyblyg i ddisgyblion ag ADY***

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod diogelu a'r effaith ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystyriaeth gritigol. Nodwyd y pryderon hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf ac maen nhw'n flaenoriaeth o hyd. Ymgynghorir gyda staff ysgolion a rhieni ynghylch anghenion disgyblion a grwpiau o ddisgyblion cyn unrhyw bontio.

Fe fydd pob dyletswydd statudol dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) a Deddf Cydraddoldeb 2010 yn parhau i fod yn berthnasol. Ni fyddai unrhyw ddisgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu trosglwyddo heb gynllunio priodol, a byddai Cynlluniau Datblygu Unigol yn parhau ar waith trwy gydol unrhyw gyfnod pontio.

Teimlir bod gan ysgol gyfunol y posibilrwydd o wella cefnogaeth i ddisgyblion ag ADY drwy:

- fwy o gapasiti staffio.
- mynediad at arbenigedd arbenigol.
- gwella cysondeb cefnogaeth.
- cyfleusterau wedi'u dylunio'n bwrpasol, yn cynnwys mannau anogaeth ac ystafelloedd i grwpiau bychain.
- dyluniad acwstig gwell i adeiladau sy'n hanfodol ar gyfer creu amgylcheddau sy'n cefnogi anghenion unigryw disgyblion ag ADY.
- system hyblyg o gefnogaeth i adlewyrchu patrwm a natur newidiol ADY disgybl.

Bydd ysgolion llai yn ei chael yn anodd cynnig y ddarpariaeth well hon.

## RHAN G. PONTIO A NEWIDIADAU

***Sicrhau bod cyn lleied â phosibl o darfu i ddysgwyr***

Mae'r Cyngor yn deall y gall y cyfnod pontio fod yn heriol iawn i rai disgyblion. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai trefniadau pontio'n cael eu cynllunio ar y cyd â theuluoedd, ysgolion a gweithwyr proffesiynol, yn cynnwys ymweliadau graddol a chefnogaeth wedi'i theilwra pan fo angen er mwyn lleihau amhariad.

Mae gan y Cyngor brofiad helaeth o gefnogi disgyblion ADY drwy ad-drefnu ysgolion. Mewn prosiectau blaenorol, bu i gynlluniau cyfnod pontio personol alluogi dysgwyr diamddiffyn i

addasu'n ddiogel a hyderus.  Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, byddai disgyblion ag ADY yn cael:

- Cynlluniau pontio personol yn seiliedig ar anghenion unigol
- Mwy o ymweliadau ymgyfarwyddo yn ystod y cyfnod pontio
- Cefnogaeth weledol, straeon cymdeithasol ac esboniadau sy'n addas i ddisgyblion
- Cyfleoedd i ddisgyblion gyfarfod staff newydd ymlaen llaw
- Cyfnodau pontio graddol, gan gynyddu'r amser a dreulir ar y safle'n raddol pan fo angen
- Cyswllt agos rhwng Cydlynwyr ADY, athrawon dosbarth, teuluoedd ac asiantaethau allanol

## RHAN H. CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL (CDU)

***Sicrhau nad yw ad-drefnu ysgolion yn amharu ar ddarparu CDU, sy'n gweithredu fel cynlluniau integredig sy'n rhwymo.***

Dan Ddeddf ALNET 2018 yng Nghymru, mae'r ddyletswydd i gynnal CDU yn trosglwyddo pan fydd disgybl yn symud i ysgol newydd, mae'r CDU yn trosglwyddo gyda nhw, a bydd y lleoliad newydd yn gyfrifol am ei gynnal a'i adolygu.

Pan fydd disgybl yn symud, mae'r CDU yn gweithredu fel adnodd ar gyfer pontio oherwydd ei bod yn ddogfen "fyw", gellir ei hadolygu a'i diweddaru i weddu i'r amgylchedd newydd neu os yw anghenion y plentyn wedi newid.

Pwrpas y CDU yn symud gyda'r disgybl yw sicrhau eu bod yn parhau i gael y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDY) angenrheidiol er mwyn bod yn llwyddiannus yn eu hysgol newydd a lleihau amhariad i'w dysgu lle bo'n bosibl.

## RHAN I. CYDWEITHIO A CHYNHWYSIANT

***Creu neu gynnal canolbwyntiau arbenigol ac arbenigedd i sicrhau bod disgyblion yn dal i fod yn rhan o gymuned yr ysgol, gan osgoi gwahaniad, lle bo'n bosibl.***

Mae cynhwysiant yn broses barhaus yn hytrach na chyflwr sefydlog.  Yn yr hirdymor, mae un ysgol gyda digon o adnoddau yn cynnwys sawl mantais i greu amgylchedd cynhwysol, yn cynnwys:

- Mwy o gyfleoedd i staff ddatblygu gyrfa a llwybrau arweinyddiaeth
- Mwy o gapasiti ar gyfer datblygiad proffesiynol a mentora
- Mynediad at rolau arbenigol, e.e. ADY, lles, cefnogaeth fugeiliol
- Mwy o hyblygrwydd i ddefnyddio staff a threfniadau llanw
- Llai o bwysau gwaith drwy dimau mwy, a mwy gwydn
- Mwy o gydweithio a rhannu arbenigedd rhwng cydweithwyr

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda rhieni, plant, pobl ifanc a staff addysgol, er mwyn gwella canlyniadau'r unigolion ag ADY.

Bydd pob dysgwr yn aros yn ei ysgol bresennol hyd nes bydd yr adeilad newydd yn barod a bydd CDUau yn aros yr un fath ac yn cael eu hadolygu yn barod ar gyfer symud i'r ysgol newydd.

Mae unrhyw adeilad newydd angen cyfranogiad sylweddol gan arweinwyr ysgol o ran dyluniad a gweithrediad.  Mae hyn yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu wedi'i lywio gan yr ymarferwyr a fydd yn darparu'r addysg ynddo, ac felly, dylai adlewyrchu ac ymateb i anghenion y dysgwyr. Mae hefyd yn golygu bod modd ystyried unrhyw ymarfer effeithiol hysbys fel rhan o'r dyluniad. Yn yr un modd, bydd dysgwyr yn rhan o gynllunio digwyddiadau ar gyfer yr adeilad newydd.

Mae'r dull hwn wedi arwain at ddyluniadau ysgol eithaf gwahanol ar draws y sir, ac mae pob un wedi'i lywio gan anghenion penodol cymunedau sy'n dysgu.  Mae hefyd yn gwella gallu'r ysgol i ddarparu addysg gynhwysol a hwyluso dysgwyr i gael eu haddysg mewn lleoliad prif ffrwd, yn unol ag egwyddorion arweiniol y Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer ADY.

## RHAN J. CYFRANOGI

***Mynd ati i geisio barn plant a rhieni (dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn) yn ystod cam ymgynghori cynigion ysgol.***

Caiff hyn ei gofnodi fel rhan o sesiynau ymgynghori Plant a Phobl Ifanc, bydd swyddogion yn sicrhau bod cynrychiolaeth ar gyfer pant ag ADY mewn unrhyw grwpiau a nodir gan yr ysgol. Bydd ymgynghori â staff ysgol a rhieni am anghenion eu disgyblion ag ADY yn rhan o'u pecyn cefnogi pontio.

Yn ystod cam dylunio unrhyw waith adeiladu, caiff staff a disgyblion eu hannog i ddarparu mewnbwn yn benodol ar gyfer meysydd arbenigol.

## RHAN L. SAFONAU'R DDARPARIAETH NEWYDD

***sut mae cynigion yn cyd-fynd â chynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer hybu cynhwysiant (h.y. darparu ar gyfer cyfran uwch o ddisgyblion ag ADY i fynychu lleoliadau prif ffrwd)***

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i bolisi Cynhwysiant i bawb, gyda phwyslais ar ddatblygiad parhaus diwylliannau a chymunedau cynhwysol yn ein hysgolion prif ffrwd ac o'u cwmpas.

Y tu hwnt i'r cyfnod pontio, bydd yr ysgol newydd yn cynnig newid sylweddol mewn darpariaeth brif ffrwd ar gyfer plant ag ADY. Byddai cyfleusterau ADY a adeiladwyd yn bwrpasol yn cynnwys:

- Ystafelloedd addysgu ac ymyrraeth i grwpiau bychain
- Ystafelloedd tawel wedi'u dylunio i reoli emosiynau
- Mannau i reoli synhwyrau ac ysgogiad isel
- Cyfleusterau hylendid a hygyrchedd arbenigol
- Coridorau lletach, gwell acwsteg a chynlluniau llawr wedi'u dylunio'n ystyriol
- Mannau synhwyraidd a lles yn yr awyr agored
- Ardaloedd seibiant sy'n cefnogi cyfnodau o dawelu a chynhwysiant
- Ystafelloedd dosbarth wedi'u dylunio'n well o ran acwsteg

Mae'r cyfleusterau yma'n ymateb yn uniongyrchol i'r anghenion a godwyd gan deuluoedd, ac ni ellir eu cyflawni o fewn cyfyngiadau'r adeiladau presennol, nid yw'r cyfleusterau hyn ganddynt. Y nod yw amddiffyn y gefnogaeth bresennol, yn ogystal â'i chryfhau a'i moderneiddio.

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn cydymffurfio'n llwyr â deddfwriaeth yn ymwneud â chydraddoldeb a gwahaniaethu ar sail anabledd.  Nid oes gan ysgolion presennol amgylcheddau safonol cyfoes ar gyfer disgyblion ag anableddau, gan gynnwys ystafelloedd hylendid a thoiledau hygyrch sydd i gyd wedi'u hadeiladu i mewn i ddyluniad ysgol fodern.

Rydym yn cydnabod bod gan nifer o blant neu bobl ifanc ag ADY anabledd. At ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 - mae anabledd yn un rhan o'r diffiniad o ADY a gall y rhan arall (anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran) gyfrif fel anabledd mewn rhai achosion. I grynhoi, ADY yw'r term addysgol ar gyfer y gefnogaeth, ac mae anabledd yn statws cyfreithiol; mae gan lawer o ddysgwyr ADY y ddau. Safbwynt y Cyngor yw y byddai disgyblion ag ADY a/neu anabledd yn derbyn cefnogaeth lawn mewn unrhyw ysgolion amgen.

Natur unrhyw gynnig sylweddol i ad-drefnu ysgol yw y bydd pob disgybl yn profi newid. Bydd y Cyngor yn ceisio paratoi'r plentyn a'r oedolion sy'n gweithio gyda'r plentyn yn y ffordd orau bosibl i leihau effaith y newid. Bydd anghenion yn cael eu hadolygu yn unol â chyfrifoldebau statudol y Cyngor a'u haddasu tuag at ddysgwyr unigol.

Mae gan y Cyngor hanes cryf o gefnogi dysgwyr drwy symud i safleoedd newydd, gan gynnwys pontio llwyddiannus i adeiladau newydd. Mae gan Gampws Mynydd Isa mwyaf diweddar dri lleoliad Adnoddau Arbenigol Awdurdod Lleol ar gyfer plant Cynradd ac Uwchradd. Roedd y pontio yn golygu mwy o gefnogaeth i ysgolion a phob dysgwr, er mwyn addasu'n ddidrafferth i'w hamgylchedd newydd.

Gyda nifer o wasanaethau rhyngberthynol arbenigol, mae Gwasanaeth Cynhwysiant a Dilyniant y Cyngor yn sicrhau bod ei ddyletswydd dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2001 yn cael ei gyflawni. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:

- Gwasanaeth Seicoleg Addysg;
- Gwasanaeth Cwnsela Pobl Ifanc;
- Gwasanaeth Synhwyraidd;
- Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn a Theithwyr;
- Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal;
- Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Gwasanaeth Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu;
- Gwasanaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistig; a
- Gwasanaethau Ymgysylltu.

I gael rhagor o wybodaeth am ein polisi ar gyfer plant ag ADY, cyfeiriwch at

https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/Children--Young-People-with-ALN/FCC-Policy-Framework-for-Children-with-ALN.pdf